Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Gweithgarwch dilynol

# Arweiniad ar gyfer ysgolion ac arolygwyr

## Tachwedd 2019

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Arweiniad ar weithgarwch dilynol ar gyfer ysgolion ac arolygwyr

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar weithgarwch dilynol ar gyfer pob arolygiad craidd a gynhelir o Fedi 2019.

Mae'r arweiniad yn nodi'r camau y bydd timau arolygu yn eu cymryd i'w helpu i nodi pa lefel gweithgarwch dilynol sy'n fwyaf priodol. Bydd yn ddefnyddiol i ysgolion ddeall y gweithdrefnau hyn a'r ffactorau fydd yn cael eu hystyried gan dimau arolygu wrth benderfynu ar y lefel gweithgarwch dilynol mwyaf priodol.

Fodd bynnag, mae'r arweiniad hwn yn hyblyg oherwydd mae angen iddo allu ymateb i'r amrywiaeth eang o sefyllfaoedd sy'n codi mewn ysgolion wrth iddynt wella yn dilyn arolygiadau craidd. Mae Estyn yn cadw'r hawl i addasu'r arweiniad i fodloni anghenion ysgolion penodol.

## Arweiniad ar gyfer arolygwyr ar osod ysgol mewn categori gweithgarwch dilynol

### Cefndir

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr ysgol.

Mae tri math o weithgarwch dilynol:

1 **Adolygu gan Estyn (Monitro gan Estyn yn flaenorol)**
2 **Gwelliant sylweddol**
3 **Mesurau arbennig**

Mae'r holl waith dilynol yn cynnwys gweithgarwch gan arolygwyr Estyn. Mae'r gweithgarwch yn cynnwys lefelau cynyddol o ymyrraeth yn gymesur ag angen.

Mae'r categorïau gwelliant sylweddol a mesurau arbennig yn gategorïau statudol sy'n berthnasol i ysgolion sy'n achosi pryder fel y cânt eu diffinio gan Ddeddf Addysg 2005 ac unrhyw gylchlythyrau cysylltiedig. Bydd Estyn yn rhoi gwybod i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a swyddogion y Cynulliad pan roddir ysgolion yn y categorïau hyn. Byddwn yn rhoi gwybod iddynt am gynnydd dilynol yn dilyn arolygiadau monitro, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

Mae diffiniad o ysgol y mae angen mesurau arbennig arni a diffiniad o ysgol y mae angen gwelliant sylweddol arni i'w gweld yn adran 44 Deddf Addysg 2005.

Mae'r un prosesau sicrhau ansawdd yn berthnasol i waith dilynol ac i arolygiadau craidd fel ei gilydd. Yr unig farn yr adroddir arni yn ystod unrhyw ymweliad monitro yw a oes angen gweithgarwch dilynol ar ysgol o hyd. Bydd y farn hon yn cael ei hadrodd i'r ysgol yn ystod ymweliadau monitro. Mae'n farn dros dro ac yn destun ei safoni gan PAEM. Mae'n gyfrinachol i'r ysgol hyd nes bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi.

## Adroddiadau Hunanwerthuso

O fis Medi 2019, nid yw Estyn yn ei gwneud yn ofynnol mwyach i ysgolion gyflwyno adroddiad hunanwerthuso cyn arolygiad craidd. Roedd hyn eisoes yn wir am ymweliadau monitro ag ysgolion mewn categori gweithgarwch dilynol, a bydd yn parhau i fod felly. Fodd bynnag, bydd Estyn yn parhau i ofyn i ysgolion ac awdurdodau lleol am adroddiad ysgrifenedig byr ar gynnydd yn unol ag argymhellion arolygiad craidd:

- cyn adolygiad wrth y ddesg o ysgolion yn y categori Adolygu gan Estyn
- cyn ymweliad monitro dilynol

## 1 Adolygu gan Estyn

Fel arfer, bydd ar ysgolion angen y lefel hon o weithgarwch pan ‘digonol ac angen gwelliant’ yw’r farn ar gyfer maes arolygu 5, arweinyddiaeth a rheolaeth. Byddai’n bosibl i o leiaf ychydig o feysydd arolygu fod wedi’u barnu yn dda. Fodd bynnag, byddai gan yr ysgol rai meysydd pwysig i’w gwella y mae’n ofynnol eu monitro. Er enghraifft, gallai hanes yr ysgol o gynllunio a gweithredu gwelliannau mewn modd digon amserol fod yn brin. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn peri pryder i’r graddau bod angen ei rhoi yn y categorïau cyfreithiol, sef bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arni.

Os bernir bod angen i’r ysgol gael ei hadolygu gan Estyn, dylai’r arolygydd cofnodol ddweud wrth y pennaeth ar ddiwedd yr arolygiad bod y tîm wedi llunio’r farn hon a llenwi’r adran berthnasol o’r FfF Adrodd.

Ar ôl safoni a dilysu’r deilliannau arolygu cytunedig o fewn Estyn, byddwn yn ysgrifennu llythyr o gadarnhad i’r ysgol, gan anfon copi ohono i’r awdurdod lleol, yn esbonio y bydd arolygwyr yn adolygu cynnydd yr ysgol. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol o ran mynd i’r afael â’r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad tua blwyddyn i ddeunaw mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad.

Yn y lle cyntaf, bydd y gweithgarwch monitro yn ystyried gwerthusiad yr ysgol o welliannau a wnaed ers yr arolygiad craidd ac adroddiad diweddaraf yr ymgynghorydd her. Os bydd tystiolaeth glir o gynnydd a’i effaith ar wella deilliannau disgyblion, bydd Estyn yn tynnu enw’r ysgol o’r rhestr ysgolion y mae angen eu hadolygu gan Estyn ac ni fydd unrhyw weithgarwch dilynol pellach yn digwydd. Os na fydd cynnydd clir yn amlwg ar yr adeg hon, fel arfer, bydd arolygwyr yn ymweld â’r ysgol.

Os cynhelir ymweliad monitro, bydd yr ymweliad hwn yn un byr (diwrnod a hanner mewn ysgol gynradd a deuddydd mewn ysgol uwchradd neu ysgol pob oed). Os bydd y dystiolaeth a ddarperir gan yr ysgol yn ystod yr ymweliad yn dangos bod cynnydd clir wedi’i wneud wrth fynd i’r afael ag argymhellion yr arolygiad craidd, gan gynnwys effaith gynnar gwelliannau ar ddeilliannau disgyblion, fel arfer, bydd arolygwyr yn tynnu enw’r ysgol o’r rhestr ysgolion y mae angen eu hadolygu gan Estyn. Fodd bynnag, os bydd arolygwyr yn barnu yn ystod yr ymweliad nad oes cynnydd digonol wedi’i wneud, bydd angen monitro pellach ar yr ysgol. O ganlyniad, gellir barnu bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig ar yr ysgol, a’i rhoi yn un o’r categorïau statudol hyn.

Ar ôl tynnu enw ysgol o gategori adolygu gan Estyn, bydd yr arolygiaeth yn cyhoeddi llythyr byr ar ei gwefan yn esbonio’i phenderfyniad. Os bydd arolygwyr wedi ymweld â’r ysgol, bydd Estyn yn anfon copi o’r adroddiad monitro i’r ysgol a’r awdurdod lleol. Os bydd angen lefel fwy dwys o weithgarwch dilynol ar ysgol yn dilyn ymweliad, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad ar yr ymweliad, i hysbysu rhanddeiliaid am ddeilliannau’r ymweliad.

**Arweiniad ar gyfer arolygwyr ynglŷn ag ysgolion sy'n peri pryder ac y gall fod angen eu rhoi mewn categori statudol**

Yn ystod pob arolygiad, dylai arolygwyr ystyried a oes angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol drwy ystyried:

- os yw'r ysgol yn methu rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion
- os nad yw'r unigolion sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol yn yr ysgol

Rhaid i'r arolygwyr ystyried a yw'r gallu gan yr ysgol i wella cyn llunio barn ynglŷn ag a oes angen gweithredu mesurau arbennig ynddi.

Os byddent yn dod i'r casgliad nad oes angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol, dylent wedyn ystyried a oes angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol. Rhaid i arolygwyr ystyried:

- os yw'r ysgol yn perfformio'n sylweddol islaw'r hyn y gellid yn yr holl amgylchiadau ddisgwyl yn rhesymol iddi berfformio

Rhaid i'r tîm arolygu adrodd fel y gwelant, a gallu cadarnhau eu barnau ar sail tystiolaeth gadarn. Nid yw barnu bod angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol ar ysgol yn orchwyl hawdd, ond **ni** ddylid osgoi gwneud hynny. Os bydd tystiolaeth yn dod i gasgliad bod angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol neu fod angen gwelliant sylweddol ynddi, rhaid i arolygwyr lunio'r farn honno.

## 2 Gwelliant sylweddol

Mae ysgolion y mae angen **gwelliant sylweddol** arnynt yn debygol o fod â llai o feysydd pwysig i'w gwella nag ysgolion y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt. Os yw arolygwyr wedi ystyried o ddifrif, ond wedi gwrthod, y farn bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol, mae'n debygol iawn y bydd yn dod i mewn i'r categori o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

Pan fyddant yn ystyried a oes angen gwelliant sylweddol ar ysgol, efallai y bydd o gymorth i arolygwyr ystyried **proffil barnau'r** ysgol, h.y. yr holl farnau a roddwyd gan y tîm arolygu ar gyfer pob maes arolygu.

Er y gall yr ysgol sydd yn y categori hwn fod yn agos at ddarparu safon dderbyniol o addysg, mae'n bwysig bod y tîm arolygu'n ystyried a oes lle ar gyfer **gwelliant sylweddol**. Rhaid mai'r egwyddor arweiniol yw a yw'r ysgol yn perfformio'n sylweddol islaw'r hyn y gellid yn yr holl amgylchiadau ddisgwyl iddi berfformio.

**Rhaid i arolygwyr roi ystyriaeth benodol i nodi bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol os bernir bod llawer o'r meysydd arolygu 'yn ddigonol ac angen gwelliant', ac os bernir bod un maes arolygu neu fwy 'yn anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys'.**

Dylai arolygwyr fod yn ymwybodol y gall rhai ysgolion yn y categori hwn fod â barnau 'digonol ac angen gwelliant' ar gyfer y rhan fwyaf o'r meysydd arolygu, ond eto gall fod angen gwelliant sylweddol arnynt.

Ar bob adeg, dylai arolygwyr gofio bod y prif bwyslais mewn arolygiadau ysgol ar y cynnydd a wna disgyblion o'u mannau cychwyn, y safonau a gyflawnant ac ansawdd eu lles. Dylid trafod y materion a nodwyd uchod fel mater o bwys mewn cyfarfodydd tîm. Mae'r amgylchiadau hyn yn arwydd o feysydd pwysig i'w gwella yn y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol a/neu arweinyddiaeth ac effeithlonrwydd. Dylai trafodaethau arolygwyr ystyried unrhyw ffactorau lliniarol i sicrhau dilysrwydd, cywirdeb a dibynadwyedd y barnau cyn penderfynu bod angen gwelliant sylweddol ar ysgol.

Beth bynnag yw'r amgylchiadau, mae'n hanfodol bod arolygwyr yn barnu gwaith yr ysgol yn y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo ar hyn o bryd. **Ni ddylai** arolygwyr gael eu dylanwadu'n ormodol gan:

- gynlluniau a baratowyd yn ddiweddar ar gyfer gwella nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith eto
- penodi staff yn ddiweddar, fel pennaeth newydd

Y rheswm am hyn, yn y ddau achos uchod, yw na fydd effaith neu ddylanwad gwelliannau wedi digwydd eto. Rhaid i arolygwyr farnu perfformiad presennol a deilliannau'r ysgol, yn hytrach na bwriadau da ac agwedd ddyheadol.

## Gweithdrefnau i'w dilyn os oes angen gwelliant sylweddol ar ysgol

Os bernir bod angen gwelliant sylweddol ar ysgol, dylai'r arolygydd cofnodol (ACof):

- ffonio a rhoi gwybod i'r cydlynydd arolygu priodol yn Estyn (ffôn 02920 446446) cyn rhoi gwybod i'r ysgol am y farn, heb fod yn hwyrach na diwedd yr arolygiad yn yr ysgol
- dweud wrth y pennaeth ac unrhyw lywodraethwr a chynrychiolydd ALl sy'n bresennol ar ddiwedd yr arolygiad bod y tîm wedi dod i'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol

Bydd PAEM, neu AEM yn gweithredu ar ran PAEM, yn craffu ar y dystiolaeth o'r arolygiad (yn y FfF Adrodd yn yr YAR) i wirio'r farn. Mae gan PAEM bŵer i alw am unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol.

### Adroddiadau a chrynodebau ar gyfer ysgol y mae angen gwelliant sylweddol arni

Os yw PAEM, yn sgil cwblhau gweithdrefnau sicrhau ansawdd, yn **cytuno** â barn yr ACof, bydd yr adroddiad yn datgan: 'Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon'.

Os yw PAEM yn **anghytuno** â barn yr ACof, bydd yr adroddiad yn datgan: 'Yn unol â Deddf Addysg 2005, rwyf fi o'r farn, ond mae PAEM yn anghytuno, bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon'.

Cyn cyhoeddi'r adroddiad, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr o gadarnhad i'r ysgol, gyda chopi i'r awdurdod lleol, yn esbonio'r canlynol:

- caiff yr ysgol ei rhoi ar restr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt
- mae'r ysgol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r gwendidau
- yn ystod y tymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad fel arfer, bydd arolygwyr yn ymweld â'r ysgol i werthuso a yw cynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA) yr ysgol a datganiad gweithredu'r awdurdod lleol yn ddigon trylwyr i ysgogi'r gwelliannau gofynnol
- tua 12 i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, bydd Estyn yn cynnal ymweliad monitro â'r ysgol ac yn gwneud un o'r penderfyniadau canlynol:

    1) os gwnaed digon o gynnydd, gellir tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt
    2) gall fod angen cynnal un ymweliad arall os bydd yr ysgol yn gwneud cynnydd digonol (mewn amgylchiadau eithriadol yn unig)
    3) os nad yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd ac nad yw'n rhoi digon o arwydd bod ganddi'r gallu i wneud hynny, yna ystyrir rhoi'r ysgol yn y categori mesurau arbennig

Mae gan PAEM ddyletswydd i hysbysu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r awdurdod lleol bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol.

## Ymweliadau monitro ag ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt

Os nodir bod angen gwelliant sylweddol ar ysgol neu UCD, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod yr ysgol wedi'i gosod mewn categori statudol.

Bydd corff llywodraethol yr ysgol yn anfon ei gynllun gweithredu drafft i Estyn cyn pen 20 diwrnod gwaith o gyhoeddi'r adroddiad. Dylid anfon datganiad drafft yr awdurdod lleol i Estyn cyn pen 5 niwrnod gwaith o gynllun gweithredu'r ysgol. Bydd yr ymweliad ynghylch y CGOA yn ymweliad undydd fel arfer. Bydd yr ymweliad yn ategu gwerthusiad ffurfiol Estyn o'r CGOA a datganiad gweithredu'r awdurdod lleol. Bydd arolygwyr yn trafod y cynlluniau gydag arweinwyr yr ysgol, llywodraethwyr a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Byddant yn sicrhau eu bod yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad fel mater o frys. Pan fydd arolygwyr yn barnu bod y cynlluniau'n bodloni gofynion, dylai'r ysgol (neu'r UCD) a'r awdurdod lleol sicrhau eu bod yn anfon copïau o'r dogfennau i Lywodraeth Cymru.

Yn sgil hynny, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol tua 12 i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Fel arfer, bydd yr ymweliad am ddeuddydd a hanner a bydd nifer yr arolygwyr yn gymesur â maint a natur yr ysgol. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed gan yr ysgol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad, gan gyfrif am y cerrig milltir a nodwyd yn y cynllun gweithredu. Byddant yn cyflawni amrywiaeth o weithgarwch arolygu, er enghraifft ymweld â dosbarthiadau, siarad â staff a disgyblion, ac ystyried dogfennau.

Os yw'r tîm yn barnu bod yr ysgol wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion, bydd y tîm yn argymell i PAEM bod enw'r ysgol yn cael ei thynnu o'r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol ynddynt. Bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad byr ar ei wefan yn esbonio'i benderfyniad.

Os yw'r cynnydd yn annigonol, bydd y tîm fel arfer yn nodi bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol. Mewn achosion eithriadol, pan fydd yr ysgol wedi gwneud cynnydd priodol a'i bod bron iawn ond nid yn hollol barod i'w henw gael ei dynnu o'r rhestr, gallai'r tîm farnu bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol o hyd. Yna, bydd un ymweliad monitro pellach ymhen tua chwe mis fel arfer. Dylai'r cyfnod chwe mis sicrhau bod yr ysgol yn barod i'w henw gael ei dynnu o'r rhestr. Os nad yw, caiff yr ysgol ei rhoi yn y categori mesurau arbennig. Fel arfer, nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol i ysgolion y nodwyd bod angen gwelliant sylweddol arnynt ar ôl cyfnod o gael eu monitro gan Estyn.

## 3 Mesurau arbennig

Os bydd arolygiad craidd yn nodi bod angen gweithredu **mesurau arbennig** mewn ysgol, mae'n debygol y bydd gan yr ysgol lawer o feysydd pwysig i'w gwella yn ei gwaith. Gall fod nifer o feysydd pwysig i'w gwella i raddau nodedig iawn gan rai ysgolion, neu lawer o feysydd i'w gwella i raddau llai. Yn y rhan fwyaf o achosion, pwysau ac effaith gronnus cyfuniad o'r meysydd hyn i'w gwella fydd, o'u cymryd ynghyd, wrth wraidd y farn nad yw ysgol yn darparu safon dderbyniol o addysg. Er bod un nodwedd ar ei phen ei hun yn annhebygol o arwain at farn fod angen mesurau arbennig ar ysgol, lle bydd arolygwyr yn dod o hyd i safonau isel ac addysgu a dysgu gwael, risgiau sylweddol i'r disgyblion neu'r tebygolrwydd y bydd disgyblaeth yn methu, bydd angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol fel arfer.

Rhaid i arolygwyr ystyried yn ofalus hefyd p'un a yw'r unigolion sy'n gyfrifol am arwain, rheoli neu lywodraethu'r ysgol yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol yn yr ysgol. Wrth farnu a yw'r gallu gan uwch reolwyr i sicrhau gwelliannau, bydd angen i arolygwyr roi sylw i ba mor dda y mae'r unigolion hyn yn gwybod ac yn deall cryfderau a gwendidau'r ysgol. Dylai arolygwyr sefydlu hefyd a yw uwch reolwyr yn dangos y gallu i fynd i'r afael â'r gwendidau drwy'r synnwyr o bwrpas a chyfeiriad a ddarperir ganddynt. Dylai trafodaethau gydag uwch reolwyr ddarparu tystiolaeth o sut maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac a ydynt yn rhoi sylw i'r pethau cywir. Dylai uwch reolwyr allu dangos eu bod yn gwybod pa ansawdd o waith y maent yn ei ddisgwyl gan ddysgwyr a'r rhai maent yn eu rheoli, a'u bod yn gallu cyfleu'r disgwyliadau hyn i gydweithwyr.

Dylai arolygwyr hefyd ystyried pa mor wybodus yw llywodraethwyr ynglŷn â materion sy'n effeithio ar berfformiad yr ysgol. Dylent werthuso pa mor dda y maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau effeithiol a phriodol. Dylai arolygwyr ystyried a yw llywodraethwyr yn bodloni'r dyletswyddau a bennwyd iddynt gan ddeddfwriaeth addysgol neu ddeddfwriaeth arall.

Wrth farnu a oes angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol, efallai y bydd o gymorth i arolygwyr ystyried **proffil barnau'r** ysgol, h.y. yr holl farnau a roddwyd gan y tîm arolygu ar draws y pum maes arolygu.

**Rhaid i arolygwyr roi ystyriaeth benodol i nodi bod angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol pan fernir bod maes arolygu 5, arweinyddiaeth a rheolaeth, 'yn anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys'.**

Ar bob adeg, dylai arolygwyr gofio bod y prif bwyslais mewn arolygiadau ysgol ar b'un a yw pob disgybl yn gwneud y cynnydd y dylai o'i fan cychwyn a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Dylid trafod y materion a nodir uchod fel mater o bwys mewn cyfarfodydd tîm. Mae'r amgylchiadau hyn yn dynodi meysydd pwysig i'w gwella yn y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, yn ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol a/neu mewn arweinyddiaeth ac effeithlonrwydd. Dylai trafodaethau arolygwyr ystyried unrhyw ffactorau lliniaru er mwyn sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd barnau cyn dod i benderfyniad bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn ysgol ai peidio.

Gall fod o gymorth i arolygwyr hefyd ddefnyddio'r cwestiynau isod i'w helpu i farnu a oes angen gweithredu mesurau arbennig mewn ysgol. Ni fyddai angen ateb yn gadarnhaol i bob cwestiwn i arwain at bennu bod angen mesurau arbennig mewn ysgol.

**Cwestiynau i'w gofyn**

**Cyffredinol**

- A yw'r ysgol yn methu rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion?
- A yw'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arddangos y gallu i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol?

**Deilliannau (MA 1 a 2)**

- A yw cyflawniad disgyblion heb fod cystal â chyflawniad disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill?
- A yw unrhyw grwpiau penodol o ddisgyblion yn tangyflawni mewn arholiadau allanol?
- A yw disgyblion yn gwneud cynnydd annigonol o ran caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau?
- A yw disgyblion yn tangyflawni mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu?
- A yw disgyblion yn aflonyddu'n rheolaidd?
- A oes cyfrannau sylweddol o ddisgyblion neu grŵp penodol o ddisgyblion yn mynychu'n wael?
- A yw lefel y gwaharddiadau yn uchel?
- A yw disgyblion yn dioddef o ddiffyg cymhelliant ac yn dangos agweddau negyddol at eu gwaith?

**Darpariaeth (MA 3 a 4)**

- A oes gwendidau gan gyfran uchel o'r addysgu?
- A yw disgwyliadau athrawon o ran cyflawniad disgyblion yn rhy isel?
- A yw'r cwricwlwm yn methu hoelio sylw grwpiau o ddisgyblion?
- A yw'r berthynas rhwng staff a disgyblion a rhwng disgyblion eu hunain yn wael?
- A oes perygl corfforol neu emosiynol i unrhyw ddisgyblion gan ddisgyblion eraill neu oedolion yn yr ysgol?
- A oes tystiolaeth o lefelau arwyddocaol o densiwn neu aflonyddu hiliol?
- A yw'r ysgol yn methu paratoi disgyblion ar gyfer bywyd oedolion, gan gynnwys

byd gwaith, lle bo'n briodol?
- A yw'r ysgol yn methu hyrwyddo lles ei disgyblion?

**Arweinyddiaeth (MA 5)**

- A yw'r pennaeth a/neu yr uwch dîm arwain yn cael effaith ar gyflawni cynnydd clir a chyson?
- A yw'r llywodraethwyr yn dwyn yr ysgol i gyfrif?
- A oes hunanwerthuso effeithiol a chywir, gan gynnwys dadansoddi data ar berfformiad yn drylwyr a gwerthuso addysgu a dysgu yn gadarn?
- A yw'r cynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol, gan gynnwys pennu blaenoriaethau clir a nodi strategaethau ymarferol?
- A aethpwyd i'r afael â gwendidau pwysig mewn perfformiad?
- A yw rheolaeth wael dros adnoddau ac adeiladau yn rhwystro cynnydd addysgol yn ddifrifol?

Rhaid i'r tîm arolygu fod yn glir ynghylch pam maent yn barnu bod angen mesurau arbennig ar ysgol benodol. Dylai'r tîm fod yn gallu cyfiawnhau eu barnau o ystyried y diffygion gyda'i gilydd.

**Gweithdrefnau i'w dilyn os bernir bod angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol**

Dylai arolygwyr adrodd eu barnau gan ddefnyddio'r geiriad rhagnodedig, a rhaid iddynt ddilyn y gweithdrefnau penodol a amlinellir isod.

Os bernir bod angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol, dylai'r ACof gymryd y camau canlynol:

- ffonio a rhoi gwybod i'r cydlynydd arolygu priodol yn Estyn (ffôn: 02920 446 446) cyn dweud wrth yr ysgol am y farn, heb fod yn hwyrach na diwedd yr arolygiad yn yr ysgol:
  1) rhoi gwybod i'r pennaeth ar lafar bod diffygion difrifol ym mherfformiad a gallu'r ysgol ym marn y tîm arolygu, a rhestru'r diffygion hynny
  2) esbonio ei bod yn debygol y bernir bod angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol, a bod angen nawr i'r tîm adolygu'r dystiolaeth
  3) atgoffa'r uwch reolwyr am yr angen i sicrhau cyfrinachedd ynghylch canfyddiadau posibl y tîm

- yn yr adroddiad llafar i'r uwch reolwyr, dywedwch fod y tîm wedi barnu nad yw'r ysgol yn rhoi safon dderbyniol o addysg, ac esboniwch yn ofalus y rhesymau dros y farn hon; yna, gellid defnyddio'r geiriad canlynol:

'Rwyf fi o'r farn bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon am ei bod yn methu rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion, ac mae diffyg gallu ymhlith uwch arweinwyr i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Yn unol â Deddf Addysg 2005, byddaf yn anfon adroddiad drafft at PAEM ac yn aros am ei farn ynghylch a yw'n cytuno neu'n anghytuno bod angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol hon.'

Dylai'r ACof fod yn barod i gyfiawnhau'r farn, ac i nodi unrhyw faterion ffeithiol y mae'r uwch reolwyr yn dymuno'u rhoi gerbron. Dylai'r ACof esbonio'n glir i'r uwch reolwyr ac unrhyw lywodraethwr neu swyddog arall yr ALI sy'n bresennol:

- mai ei farn ef yw'r farn hon a chaiff ei rhannu gan y tîm
- yn unol â Deddf Addysg 2005, bydd yn hysbysu PAEM
- rhaid i PAEM ddatgan a yw'n cytuno neu'n anghytuno â'r farn
- os bydd PAEM yn cytuno â'r farn, bydd yr ysgol yn destun mesurau arbennig
- y gall oedi ddigwydd cyn cyhoeddi'r adroddiad oherwydd yr amgylchiadau, ond mai'r oedi mwyaf yw tri mis o'r amser cyflwyno disgwyliedig

**Adroddiadau a chrynodebau ar gyfer ysgolion y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt**

Rhaid i'r ACof ddweud yn glir yn y FfF Adrodd nad yw'r ysgol, yn ei farn ef, yn darparu safon dderbyniol o addysg ac nad yw'r gallu gan yr uwch reolwyr i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol (hynny yw, mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddi). Rhaid i'r ACof ddweud yn glir hefyd beth yw'r diffygion a arweiniodd at y farn honno. Dylai sail y dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad gadarnhau'r farn yn llawn.

Bydd PAEM, neu AEM yn gweithredu ar ran PAEM, yn craffu ar y dystiolaeth o'r arolygiad (yn y FfF Adrodd) i wirio'r farn. Mae gan PAEM bŵer i alw am unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol.

Gall Estyn ymweld â'r ysgol o fewn tair wythnos i gadarnhau'r farn fod angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol, ond ni fydd angen hyn fel arfer. Diben yr ymweliad hwn fydd:

- arolygu'r agweddau hynny ar yr ysgol lle daeth arolygwyr o hyd i ddiffygion
- pennu dilysrwydd eu barnau
- gwirio eu bod wedi cynnal yr arolygiad yn briodol

Os yw PAEM, yn sgil cwblhau gweithdrefnau sicrhau ansawdd, **yn cytuno** â'r farn bod yr ysgol yn methu rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion ac nad yw'r gallu gan yr uwch reolwyr i wneud y gwelliannau angenrheidiol, bydd yr adroddiad yn datgan:

'Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon'.

Os yw PAEM yn **anghytuno** â barn yr ACof, bydd yr adroddiad yn datgan:

'Yn unol â Deddf Addysg 2005, rwyf fi o'r farn, ond mae PAEM yn anghytuno, bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon'.

Cyn cyhoeddi'r adroddiad, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr o gadarnhad at yr ysgol, gyda chopi i'r awdurdod lleol yn esbonio'r canlynol:

- mae'r ysgol yn cael ei rhoi ar restr o ysgolion y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt
- mae'r ysgol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r gwendidau

- bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol yn rheolaidd, bob pedwar i chwe mis fel arfer

Mae gan PAEM ddyletswydd i hysbysu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r awdurdod lleol bod angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol neu'r UCD.

**Ymweliadau monitro ag ysgolion yn y categori mesurau arbennig**

Bydd corff llywodraethol yr ysgol yn anfon ei gynllun gweithredu i Estyn cyn pen 20 diwrnod gwaith o gyhoeddi'r adroddiad. Dylid anfon datganiad yr awdurdod lleol i Estyn cyn pen 5 niwrnod gwaith o gynllun gweithredu'r ysgol. Bydd yr ymweliad cyntaf ynghylch y CGOA yn ymweliad undydd fel arfer. Bydd yr ymweliad yn ategu gwerthusiad ffurfiol Estyn o'r CGOA a datganiad gweithredu'r awdurdod lleol. Bydd arolygwyr yn trafod y cynlluniau gydag arweinwyr yr ysgol, llywodraethwyr a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Byddant yn sicrhau eu bod yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad fel mater o frys. Pan fydd arolygwyr yn barnu bod y cynlluniau'n bodloni gofynion, dylai'r ysgol (neu'r UCD) a'r awdurdod lleol sicrhau eu bod yn anfon copïau o'r dogfennau i Lywodraeth Cymru.

Bydd ymweliadau dilynol yn para deuddydd fel arfer. Cânt eu cynnal o leiaf bob chwe mis, a gellir eu cynnal bob tymor. Bydd arolygwyr yn cyflawni amrywiaeth o weithgarwch arolygu, a allai gynnwys ymweld â dosbarthiadau, siarad â staff a disgyblion neu ystyried deilliannau holiaduron, cyfweld â llywodraethwyr ac uwch arweinwyr, ystyried gwaith disgyblion ac ystyried dogfennau eraill.

Fel arfer, bydd pob ymweliad yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed gan yr ysgol wrth fynd i'r afael â sampl o argymhellion. Dros gyfnod deuddeg mis, bydd arolygwyr fel arfer yn gwerthuso cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion. Mae'n debygol y caiff argymhellion allweddol eu gwerthuso fwy nag unwaith, cyn bod yr ysgol yn barod i'w thynnu o'r categori mesurau arbennig.

Ar ddiwedd pob ymweliad, bydd arolygwyr yn barnu p'un a oes angen mesurau arbennig ar yr ysgol o hyd, ai peidio. Os bydd cynnydd yn annigonol, bydd angen gweithredu mesurau arbennig yn yr ysgol o hyd. Bydd Estyn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro hyd nes bod PAEM yn penderfynu bod yr ysgol wedi gwella digon i dynnu ei henw o'r categori mesurau arbennig.

Os bydd Estyn yn dechrau pryderu bod y cynnydd tuag at dynnu enw'r ysgol o'r categori mesurau arbennig yn rhy araf, gall drefnu ymweliad ychwanegol. Gall arolygwyr gyfarfod ag arweinwyr yr ysgol a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol i ailystyried p'un ai a yw'r camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio gan yr ysgol, a'r cymorth y mae'r ysgol yn ei gael, yn addas at eu diben. Bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru pryd bynnag y bydd ganddo bryderon am gyflymder cynnydd yr ysgol.

Tra bydd mesurau arbennig yn cael eu gweithredu mewn ysgol, ni chaiff llywodraethwyr a'r awdurdod lleol benodi unrhyw athrawon newydd gymhwyso (ANG neu RhAG) i'r staff, heb ofyn am ganiatâd Estyn.

Pan fydd y tîm o'r farn bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol, bydd Estyn yn argymell i PAEM fod enw'r ysgol yn cael ei thynnu o'r rhestr ysgolion y mae angen

gweithredu mesurau arbennig ynddynt. Bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad byr ar ei wefan yn esbonio'i benderfyniad.

**Cynadleddau gwella i ysgolion yn y categori mesurau arbennig**

Pan fydd Estyn yn nodi bod cynnydd ysgol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'i harolygiad craidd yn rhy araf, gall benderfynu cynnal cynhadledd wella. Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth undydd 'o gwmpas y bwrdd' rhwng arolygwyr, uwch arweinwyr, llywodraethwyr a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol.

Bydd y gynhadledd yn canolbwyntio ar:

- Y cynnydd a wnaed gan yr ysgol ers yr arolygiad craidd
- Rhwystrau rhag cynnydd pellach
- Adolygu'r CGOA a datganiad gweithredu'r awdurdod lleol, a nodi ymhle y mae angen eu cryfhau a/neu eu diweddaru.